

Ffordd hyn

Mentora

Cymorth i gael eich traed odanoch yn y Brifysgol

Cynllun Mentora Gymheiriaid i gefnogi ein myfyrwyr



Ffordd hyn

Mentora

Gadewch i ni'ch helpu i gael eich traed odanoch yn y Brifysgol

Cyngor cyfeillgar, cyfrinachol, un-i-un ar unrhyw agwedd ar fywyd prifysgol

Cynllun Mentora Gymheiriaid ar gyfer pob myfyriwr i'ch cynorthwyo:

- I gyflawni eich potensial
- Ymgartrefu yn y Brifysgol
- Cynllunio am y dyfodol
- Gwneud y gorau o'ch amser yn y Brifysgol



Beth yw'r cynllun?

Cynllun cynorthwyo cymheiriaid yw 'Ffordd hyn', i gynorthwyo myfyrwyr i wneud y gorau o'u cyfnod Prifysgol. Gall y Mentor helpu ag unrhyw agwedd ar fywyd prifysgol, yn academiaidd, ariannol neu gymdeithasol. Gall y Mentor hefyd eich helpu chi i drefnu'ch astudiaethau a magu cymhelliant trwy fod yn gyswllt â gwasanaethau'r brifysgol sydd ar gael i fyfyrwyr.

Sut mae'n gweithio?

Mae'r mentoriaid naill ai'n israddedigion yn y drydedd flwyddyn neu'n uwchraddedigion. Maen nhw wedi cael hyfforddiant i ymdrin â llawer o'r problemau sy'n wynebu myfyrwyr prifysgol, a phob un wedi bod yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf eu hunain! Gall pob myfyriwr gael tua tri chyfarfod un-i-un â'r mentor bob semester a chymorth trwy e-bost rhwng y cyfarfodydd.

Pwy sy'n elwa?

Gall unrhyw fyfyrwr elwa o'r Mentora! Gall mentora eich helpu os ydych chi'n

- teimlo'n ansicr am eich dyfodol yn hiraethus
- neu'n teimlo bod angen mwy o amser i ymgartrefu
- teimlo bod angen cymorth i drefnu eich amser
- awyddus i gael rhywun i siarad â nhw am eich cynnydd
- teimlo'n ansicr am yr hyn y gall PA ei gynnis
- teimlo pwysau ychwanegol y tu hwnt i'ch gwaith cwrs

Os ydych chi'n meddwl bod y Cynllun Mentora yn swinio'n syniad da i chi, cysylltwch â:

fforddhyn@aber.ac.uk

Ffôn: 01970 621761

Neu edrychwch ar weddalennau'r Cynllun Ffordd Hyn:

www.aber.ac.uk/cy/student-support/our-services/signpost-mentoring/